**Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg**
**Cyfleuster Gofal Dydd / Crèche Masnachol ar gyfer Cŵn Dan Do ac Awyr Agored (a lletya) - Amodau Trwydded**

**DEDDF SEFYDLIADAU LLETY ANIFEILIAID 1963**
**Fersiwn 4 21.11. 2024**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Oni bai y nodir yn wahanol, bydd yr amodau hyn yn berthnasol i'r holl adeiladau ac ardaloedd y gall cŵn fynd iddynt a/neu a gaiff eu defnyddio yn gysylltiedig â gofal dydd cŵn.

1.2 Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod gan y sefydliad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ac addas a, lle bo angen, yswiriant cyflogwr digonol ac addas.

1.3 Ni chaniateir i unrhyw gŵn gael eu lletya dros nos o dan y drwydded hon, gyda'r eithriad y cytunwyd arno gyda'r Awdurdod Lleol wedi'i nodi isod ym mhwyntiau 5.11.8 – 5.11.21.

1.4 Ni chaniateir derbyn unrhyw gi sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 ar gyfer gofal dydd.

1.5 Nid yw hybridiau cŵn sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (e.e. Hybridiau Bleiddiaid) i'w derbyn ar gyfer gofal dydd.

1.6 Ni ddylid rhoi gwrywod cyfan a geist sydd ar fin bod yn eu tymor gyda'i gilydd.

1.7 **Gellir** rhoi llety i gŵn bach dan 6 mis oed gyda chŵn eraill ar yr amod eu bod wedi'u brechu'n addas ac nad oes unrhyw anawsterau wedi'u nodi yn ystod cyfnod cymdeithasu prawf a gofnodwyd.

## 2. ARDDANGOS TRWYDDED

2.1 Dylid arddangos copi o'r drwydded a'i hamodau cysylltiedig yn addas mewn man amlwg i'r cyhoedd ei weld yn, ar neu ar draws y safle neu sicrhau ei fod ar gael i bob lletywr.

## 3. NIFER YR ANIFEILIAID

3.1 Bydd uchafswm y cŵn i'w cadw ar y safle ar unrhyw adeg, a chymhareb nifer y staff i gŵn, fel y pennir yn nogfen y drwydded.

## 4. ADEILADU

4.1 Dylai pob arwyneb mewnol a ddefnyddir i adeiladu waliau, lloriau, parwydydd, drysau a fframiau drws fod yn llyfn, yn wydn ac yn anhreiddiadwy. Ni ddylai unrhyw ran o'r adeiladwaith ymestyn allan, neu fod ag ymylon garw a allai achosi anaf. Rhaid i'r holl ffensys / gatiau / ffiniau fod yn addas i gadw'r cŵn yn eu lle, o ran cryfder ac uchder. Rhaid iddynt gael eu hadeiladu'n ddigonol ac yn ddiogel, fel nad ydynt yn achosi anafiadau ac i atal y cŵn rhag mynd yn sownd. Rhaid sicrhau nad oes bylchau i gŵn bach fynd trwyddynt a dianc. Rhaid i'r holl ffiniau gael eu hadeiladu, eu codi a'u cynnal mewn ffordd sy'n ddiogel i anifeiliaid ac sy'n atal dianc neu eraill rhag dod i mewn.

4.2 Bydd gan y safle ei fynedfa ei hun ac ni fydd ganddo fynediad a rennir e.e. grisiau cymunedol. Dim hawliau tramwy / llwybrau ceffylau ac ati
Bydd cynllun a dyluniad y safle yn ymgorffori mesurau i leihau'r risgiau o gŵn yn dianc. Bydd hyn yn cynnwys, system trap aer / 2 ddrws, ffensys perimedr ac wedi'u cynnwys ar asesiad risg y safle. Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr.

4.3 Mae'n rhaid bod digon o le, golau, gwres ac awyru i'r cŵn. Yn ystod oriau golau dydd, dylai pob ardal gael ei goleuo â golau naturiol, lle bo hyn yn ymarferol. Nid yw hyn yn berthnasol i fusnes sy'n gweithredu o fewn oriau golau dydd naturiol yn unig.
Isafswm y tymheredd a ganiateir yw 10ºC (50ºF) a'r uchafswm yw 26ºC (79ºF). Rhaid cynnal tymheredd rhesymol bob amser er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mewn amgylchiadau lle na all y cyfleuster dan do gynnal yr isafswm tymheredd, ni fydd y sefydliad yn gallu agor. Ar adegau o dymheredd eithafol (y tu allan i'r ystodau uchod) gallai gweithredwyr geisio dod â thymheredd y safle o fewn yr ystod uchod trwy ddefnyddio ffaniau, padiau oer, ciwbiau iâ mewn dŵr, pyllau padlo, padiau gwres, gwresogyddion, blancedi ac ati
Dylai cynllun tywydd oer a thywydd poeth fod ar waith ac ar gael ar gais swyddog yr Awdurdod lleol.
Rhaid darparu awyr iach heb ormod o ddrafftiau.
Rhaid cofnodi'r tymheredd dyddiol. Bydd thermomedrau digidol (sy'n dangos y darlleniad isaf a'r mwyaf) wedi'u lleoli yn yr holl ardaloedd angenrheidiol.

4.4 Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i bob ystafell / ardal y gall cŵn gael mynediad iddynt fod yn rhydd o unrhyw berygl corfforol neu gemegol a allai beri niwed i'r cŵn.

4.5 Dylai fod digon o le ar gael i gadw'r cŵn ar wahân os bydd rhaid. Ym mhob achos, rhaid ystyried maint ac anghenion pob ci yn briodol er mwyn sicrhau y gall y cyfleuster hwn barhau i ddiwallu ei anghenion.

4.6 Rhaid i bob sefydliad fod ag isafswm o 5% o le yn y cytiau ar gyfer y mwyafswm o gŵn a ganiateir yn unol â'r drwydded hon. Rhaid i gytiau fod yn unigol a bodloni'r gofyniad maint o 2.3 metr sgwâr.

Rhaid i bob cwt gael eu hadeiladu gyda deunyddiau addas, anhydraidd sy'n hawdd eu glanhau. Rhaid darparu deunydd cysgu addas.
Rhaid i'r staff allu gweld y cytiau hyn a'r cŵn bob amser.
Mae'r cytiau i'w defnyddio ar gyfer amser ymdawelu / bwydo. Nid ydynt er defnydd cyson ac ni ddylid eu defnyddio fel cyfleusterau ynysu.

## 5. RHEOLAETH

### 5.1 HYFFORDDIANT

5.1.1 Rhaid darparu polisi hyfforddiant ysgrifenedig i staff. Dylid gallu dangos bod staff wedi'u hyfforddi mewn ffordd systematig. Dylai aelodau o staff feddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ymddygiad cŵn, gan gynnwys iaith y corff, dulliau chwarae a rheoli ymddygiad yn ogystal ag iechyd cŵn, iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf i gŵn.

5.1.2 Rhaid i bob aelod o staff gael cofnod o gymhwysedd wedi'i ddogfennu. Gall hyn fod ar ffurf tystysgrifau cymwysterau / cyrsiau perthnasol, a/neu sesiynau dan oruchwyliaeth lle maent wedi cael eu hasesu mewn tasgau a'u hystyried yn gymwys. Rhaid i gofnod bob aelod o staff nodi'n glir pa dasg sydd wedi ei hasesu ac os ydyn nhw'n gallu gweithio ar eu pen eu hunain erbyn hyn. Dylai'r cofnod hwn gael ei ddyddio a'i lofnodi gan reolwr perthnasol y sefydliad.

### 5.2 GLANWEITHDRA

5.2.1 Rhaid cadw pob ardal y gall y cŵn fynd iddi, gan gynnwys y gegin, yn lân ac yn rhydd o groniadau o lwch a baw a rhaid eu cadw yn y fath fodd fel eu bod yn hwyluso rheoli clefydau ac yn gwneud y cŵn yn gyfforddus.

5.2.2 Dylid symud yr holl garthion a deunydd wedi'i faeddu o bob ardal a ddefnyddir gan gŵn o leiaf unwaith y dydd ac yn fwy aml os bydd angen. Rhaid cytuno ar gyfleusterau gwastraff anifeiliaid gyda swyddog trwyddedu'r Cyngor.

5.2.3 Rhaid cadw pob ardal a deunydd cysgu yn lân ac yn sych. Dylid glanhau'r eitemau hyn yn aml i atal croes-heintio. Dylai'r trwyddedai allu darparu deunyddiau cysgu ychwanegol.

5.2.4 Dylid darparu cyfleusterau i dderbyn, storio a gwaredu gwastraff yn briodol. Dylid gwahanu gwastraff clinigol sy'n deillio o drin cŵn gyda chlefydau heintus yn ofalus.

5.2.5 Dylid cymryd camau i leihau'r peryglon sy'n codi o gnofilod, pryfed a phlâu eraill o fewn y sefydliad.

5.2.6 Rhaid i gemegau sy'n cael eu defnyddio wrth lanhau fod ar restr cymeradwy DEFRA ar gyfer sefydliadau cŵn ac ni ddylent fod yn niweidiol i iechyd y cŵn, pe baen nhw'n dod i gysylltiad â nhw. Gellir dod o hyd i restrau o gynhyrchion

cymeradwy ar wefan DEFRA: Diheintydd cymeradwy Defra: pryd a sut i'w ddefnyddio - GOV.UK (www.gov.uk)

Dewiswch gynnyrch sy'n berthnasol i gŵn a dilynwch gyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr.

## 5.3 CYFLENWADAU BWYD A DŴR

5.3.1 Rhaid i bob ci fod â chyflenwad digonol o fwyd addas yn unol â chyfarwyddyd y cleient.

5.3.2 Rhaid bod dŵr ffres ar gael bob amser (oni bai y cynghorir fel arall gan filfeddyg) a rhaid glanhau y cynhwysydd yfed yn ddyddiol. Rhaid newid y dŵr o leiaf ddwywaith y dydd.

5.3.3 Rhaid darparu deunydd cysgu, powlenni, offer twtio ac ati sy'n addas. Dylid glanhau'r eitemau hyn yn aml i atal croes-heintio.

5.3.4 Lle bo angen, rhaid darparu cynwysyddion bwyta ac yfed sy'n hawdd eu glanhau a'u diheintio i atal croeshalogi. Dylid hefyd eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr glân. Rhaid glanhau powlenni bwydo a'u gwaredu wedi pob pryd a rhaid i bob ci gael ei bowlen ei hun.

5.3.5 Rhaid i bob ci allu manteisio ar ei ddeunydd cysgu addas ei hun bob amser. Rhaid i'r deunydd cysgu fod wedi'i wneud o ddeunyddiau glân, heb fod yn beryglus nac yn debygol o achosi anaf. Rhaid iddo fod yn gynnes a chyfforddus. Rhaid tynnu unrhyw ddeunydd cysgu sydd wedi'i ddifrodi neu ei faeddu ar unwaith a'i newid am ddeunydd sbâr sydd ar gael yn y cyfleuster. Rhaid i'r deunydd cysgu fod yn sych a chael ei wirio'n rheolaidd.

5.3.6 Rhaid i ddigon o deganau / offer gweithgareddau sy'n addas i gŵn gael eu darparu i sicrhau nad ydynt yn cystadlu amdanynt. Rhaid i'r holl offer fod yn addas ar gyfer cŵn a'u cynnal a'u cadw'n briodol. Rhaid i deganau wedi'u cnoi gael eu tynnu ar unwaith fel nad ydynt yn achosi tagu, neu anafiadau tebygol eraill. Rhaid i'r offer hefyd fod yn rhai anhydraidd y gellir eu glanhau.

## 5.4 CYFLEUSTERAU CEGIN

5.4.1 Rhaid darparu cynwysyddion aerdyn ar gyfer storio'r holl fwydydd sychion. Rhaid asesu risg bwyd heb ei goginio / bwyd amrwd. Rhaid asesu unrhyw gŵn ar ddeiet bwyd anifeiliaid amrwd, gartref neu yn safle'r busnes, oherwydd y risgiau i'r cŵn eraill.
Rhaid storio tuniau bwyd amrwd ac wedi'u hagor mewn oergell. Os nad oes oergell ar gael, ni ddylai'r bwyd gan ei storio gan y sefydliad.
Mae bwyd tun yn dderbyniol, fodd bynnag, rhaid i unrhyw fwyd sy'n weddill mewn tun agored gael ei waredu os nad oes oergell ar gael.

5.4.2 Dylid cadw swmpau mawr o fwyd mewn cynwysyddion sy'n gallu atal llygod.

5.4.3 Rhaid darparu cyfleusterau cegin ar gyfer storio a pharatoi bwyd i'r cŵn yn unig, a rhaid iddynt gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw mewn modd hylan.

5.4.4 Rhaid darparu sinc gyda dŵr oer a phoeth i olchi offer bwyd a llestri bwyta ac yfed. Rhaid darparu basn ymolchi ar wahân gyda dŵr poeth ac oer at ddefnydd staff. Rhaid i ddŵr potel fod yn bresennol yn y sefydliad i ddarparu dŵr yfed a chyfleusterau i staff olchi eu dwylo.

## 5.5 <u>RHEOLI CLEFYDAU A BRECHU</u>

5.5.1 Rhaid cymryd camau digonol i atal a rheoli clefydau heintus ac ymledol, a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith y cŵn, y staff ac ymwelwyr.

5.5.2 Rhaid cymryd camau digonol i atal a rheoli clefydau heintus ac ymledol, a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith cŵn, staff ac ymwelwyr, oni bai bod eithriad fel y nodir isod.

5.5.3 Rhaid profi bod cŵn sy'n lletya neu sy'n byw yn y ganolfan â'r brechiadau cyfredol ar gyfer Clefyd y Cŵn, Hepatitis Heintus y Cŵn, (canine adenovirus), Leptospirosis (L.canicola ac L. icterohaemorragiae) a Pharfofeirws y Cŵn, peswch y cŵn ac unrhyw glefydau perthnasol eraill.

*Brechiadau DHP a LEPTO:*

Dylai'r cwrs brechu cyntaf fod wedi ei gwblhau o leiaf bedair wythnos cyn i'r ci gael ei letya, neu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid darparu cofnod o hyn, ar ffurf cerdyn brechu neu, yn ei absenoldeb, hanes clinigol milfeddygol printiedig, a rhaid ei gadw ar y safle drwy gydol y cyfnod y mae'r ci wedi'i letya, a dylai copi o ddogfennaeth o'r fath gael ei wneud a'i gadw am o leiaf 2 flynedd.

Dylid rhoi pigiadau atgyfnerthu yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr ac nid oes angen gwrthod lletya ci cyn belled ag y cydymffurfiwyd â hyn, neu os yw'r ci wedi'i eithrio fel y manylir isod. Os na roddwyd pigiadau atgyfnerthu o fewn y dyddiadau sydd yng nghanllawiau'r gwneuthurwr, rhaid i frechiadau ddechrau eto a bydd y cyfnodau cychwynnol ar gyfer gwrthod lletya yn berthnasol.

Gall sefydliadau ddefnyddio eu disgresiwn i fynnu brechiadau 'blynyddol', neu, i dderbyn pigiadau atgyfnerthu yn unol â chanllawiau gwneuthurwr y brechiadau. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am brawf gan filfeddyg y ci ar ffurf llythyr papur pennawd, e-bost gyda chyfeiriad gwaith, neu gopi o'r hanes clinigol sy'n nodi pa fath o frechiad sydd wedi'i weinyddu a phryd y bydd yn cael ei ail-weinyddu yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr. Rhaid i chi gadw'r prawf hwn am 2 flynedd.

*Brechiad Peswch y Cŵn, 2 fath:*

Brechiad trwynol: Rhaid rhoi'r brechiad cychwynnol / cyntaf 3 wythnos cyn y gellir derbyn y ci i'w letya. Os yw'n bigiad atgyfnerthu (h.y. cafodd y brechiad PC y flwyddyn flaenorol) a'i fod wedi'i dderbyn o fewn yr amserlen pigiad atgyfnerthu flynyddol, nid yw dyddiadau lletya wedi'r brechiad yn berthnasol a gall gael ei letya. Ond os na chafodd y pigiad atgyfnerthu o fewn yr amserlen flynyddol yna bydd angen 'ailgychwyn', sy'n golygu bod y 3 wythnos gychwynnol yn berthnasol, neu, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.

Brechiad y gellir ei chwistrellu: Rhaid rhoi'r brechiad cychwynnol / cyntaf 3 wythnos cyn y gellir derbyn y ci i'w letya. Os yw'n bigiad atgyfnerthu (h.y. cafodd y brechiad PC y flwyddyn flaenorol) a'i fod wedi'i dderbyn o fewn yr amserlen pigiad atgyfnerthu flynyddol, nid yw dyddiadau lletya wedi'r brechiad yn berthnasol a gall gael ei letya. Ond os na chafodd y pigiad atgyfnerthu o fewn yr amserlen flynyddol yna bydd angen 'ailgychwyn', sy'n golygu bod y 3 wythnos gychwynnol yn berthnasol, neu, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.

Y naill ffordd neu'r llall, rhaid i brawf o'r math o frechiad gael ei nodi'n glir ar y cerdyn brechiad neu ar y ffurflen hanes clinigol gan y filfeddygfa a'i weinyddodd, a bydd y cofnod hwn yn cael ei gadw gan y sefydliad lletya.

5.5.4 **Eithriadau:**

Mae adweithiau niweidiol, neu gyngor gan filfeddygon sy'n credu bod y risg i iechyd ci yn fwy wrth dderbyn brechiad na pheidio, yn brin ond yn digwydd. Felly;

PROFION TITRE ar gyfer DHP:
Bydd y rhain ond yn cael eu derbyn yn lle'r brechiadau ar gyfer cŵn sydd wedi cael adwaith niweidiol, neu, sydd wedi cael cyngor ysgrifenedig gan eu milfeddyg bod y brechiadau'n niweidiol iawn i'r ci penodol hwnnw. Mae hyn yn disodli'r brechiad DHP yn unig.

Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am brawf gan filfeddyg o ganlyniadau'r profion Titre sydd wedi'u cymryd o fewn uchafswm o 12 mis cyn y cyfnod lletya, a thystiolaeth gan y milfeddyg bod y ci wedi cael adwaith andwyol neu wedi cael cyngor na ddylai'r ci dderbyn y brechiad. Rhaid i hyn gael ei gadw gan y sefydliad am o leiaf 2 flynedd.

I gael eithriad rhag derbyn brechiadau LEPTO a PHESWCH Y CŴN rhaid cael tystiolaeth gan y milfeddyg bod y ci wedi cael adwaith niweidiol neu rhaid bod wedi cael cyngor na ddylai'r ci dderbyn y brechiad a rhaid i'r sefydliad gadw'r dystiolaeth am o leiaf 2 flynedd.

Ar gyfer yr holl frechiadau sydd wedi'u heithrio uchod:

Oherwydd bod mwy o risg, mae'n rhaid i berchnogion unrhyw gŵn eraill sydd i fod i gael eu lletya ar yr un pryd â'r ci sydd heb ei frechu gael gwybod am y sefyllfa ac am y risgiau i'w ci nhw. Yna mae'n rhaid iddyn nhw lofnodi ymwadiad i ddweud eu bod wedi cael gwybod am y risgiau ac yn eu derbyn ac yn parhau i ddymuno i'w ci gael ei letya yn y sefydliad. Dylid cadw'r ymwadiad hwn am o leiaf 2 flynedd. Dylid dilyn y broses hon bob tro y mae ci heb ei frechu yn cael ei letya.

5.5.5 Rhaid bod y trwyddedai wedi cofrestru gyda milfeddygfa. Dylai milfeddygfa'r cleient fod yn hysbys, a dylid ymgynghori â'r filfeddygfa os bydd angen. Dylid cael cyngor gan filfeddyg os oes arwyddion o glefyd, anaf neu salwch. Os bydd unrhyw gi yn sâl neu wedi ei anafu, rhaid dilyn yn gaeth unrhyw gyfarwyddiadau triniaeth a roddwyd gan filfeddyg a chofnodi'r manylion. Bydd y trwyddedai'n hysbysu'r Awdurdod trwyddedu o fanylion unrhyw driniaeth.

5.5.6 Rhaid bod blwch cymorth cyntaf ar wahân â digonedd o offer sy'n addas i'w defnyddio ar gŵn fod ar gael ac yn hawdd ei gyrraedd ar y safle ac yn ystod ymarfer corff oddi ar y safle.

5.5.7 Rhaid cael prawf o driniaethau parasitiaid gan filfeddyg a chadw cofnod ar gyfer pob ci sy'n mynychu'r sefydliad. Mae hanes clinigol, neu bresgripsiwn ac anfoneb prynu yn brawf priodol ar gyfer hyn. Rhaid diweddaru cofnod pob ci yn unol â gofynion amserlen dosau'r driniaeth. Er enghraifft: Bob mis / Bob 3 mis yn dibynnu ar y cynnyrch.

5.5.8 Rhaid cymryd rhagofalon i atal lledaeniad chwain, trogod, parasitiaid coluddol ac unrhyw barasitiaid eraill. Rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig o bob triniaeth arferol a brys ar gyfer parasitiaid a roddir i gŵn tra byddant ar y safle.

5.5.9 Caiff y safle ei drin am chwain a pharasitiaid gyda chynnyrch effeithiol yn ôl yr angen.

5.5.10 Rhaid gofyn am gyngor milfeddyg o ran sylweddau glanhau i sicrhau na allan nhw na'u mygdarthau fod yn niweidiol i anifail.

## 5.6 YNYSU AC ACHOS O GLEFYD HEINTUS

5.6.1 Bydd cŵn sy'n dangos arwyddion o unrhyw glefyd neu afiechyd yn cael eu hynysu o unrhyw gŵn eraill nes y ceir cyngor gan filfeddyg. Rhaid bod cyfleusterau digonol o fewn y safle trwyddedig i sicrhau bod modd gwahanu anifail sâl yn effeithiol.

5.6.2 Rhaid i'r trwyddedai hysbysu'r Cyngor yn ddi-oed os bydd ci'n datblygu clefyd heintus. Rhaid iddo ymgynghori hefyd â'i filfeddygfa i gael cyngor ar unrhyw ragofalon y bydd angen eu cymryd.

5.6.3 Yn dilyn achos o glefyd heintus yn ystod unrhyw arhosiad, rhaid i'r safle fod dan gwarantîn am gyfnod rhesymol cyn derbyn cŵn newydd i'r gwasanaeth gofal

dydd. Caiff y cyfnod hwn ei bennu gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor gyda chyngor gan filfeddyg.

5.6.4 Rhaid hysbysu'r Cyngor am farwolaeth unrhyw anifail ar y safle neu sydd dan ofal y cyfleuster. Rhaid i'r trwyddedai drefnu i'r corff gael ei storio ar safle milfeddyg nes bod y perchnogion yn dychwelyd oni dderbynnir cyfarwyddiadau gwahanol gan y perchennog neu rywun sy'n ei gynrychioli.

## 5.7 COFRESTR

5.7.1 Rhaid cadw cofrestr o bob ci ar y safle. Rhaid cadw'r gofrestr mewn fformat sy'n galluogi aelodau allweddol o staff ac unrhyw swyddog awdurdodedig neu filfeddyg i gael hyd i'r fath wybodaeth. Dylai'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gynnwys y canlynol:

- Dyddiad ac amser cyrraedd;
- Enw'r ci ac unrhyw ddull adnabod megis rhif microsglodyn neu datŵ;
- Disgrifiad o'r ci gan gynnwys ei frîd, ei oedran a'i ryw;
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r ceidwad;
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn person cyswllt pan fydd yn derbyn gofal;
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci;
- Dyddiad ac amser gadael;
- Prawf o frechiadau cyfredol ynghyd â hanes a gofynion meddygol;
- Manylion unrhyw driniaeth a roddwyd tra oedd y ci'n derbyn gofal;
- Gofynion iechyd, lles, maeth ac ymarfer corff; a
- Copi o ganiatâd ysgrifenedig gan y perchennog o ran ei gi yn rhyngweithio â'r cŵn eraill yn yr uned gofal dydd.

5.7.2 Rhaid i'r fath gofrestr fod ar gael i'w archwilio ar bob adeg gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor a/neu filfeddyg.

5.7.3 Rhaid cadw'r gofrestr am ddwy flynedd o leiaf a'i chadw yn y fath fodd fel y gall Swyddog Awdurdodedig ddod o hyd i'r wybodaeth yn rhwydd.

5.7.4 Os oes angen rhoi meddyginiaeth, mae'n rhaid cofnodi hyn.

5.7.5 Os yw'r cofnodion ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi wrth gefn. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i aelodau allweddol o staff y sefydliad ar bob adeg.

## 5.8 GORUCHWYLIAETH

5.8.1 Rhaid i unigolyn addas a phriodol sydd â'r profiad perthnasol fod wrth law bob amser i fynd â'r cŵn i ymarfer corff a'u goruchwylio ac i ymdrin ag argyfyngau pryd bynnag y bo'r cŵn yn lletya ar y safle. Rhaid bod gan staff brofiad

perthnasol heb unrhyw euogfarnau troseddol na rhybuddion syml am unrhyw dramgwydd sy’n ymwneud â lles anifeiliaid.

5.8.2 Rhaid i’r trwyddedai gwblhau a chofnodi asesiad risg cyn caiff unrhyw drwydded ei rhoi (templed wedi’i gynnwys). Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr, a gallwch ychwanegu unrhyw risgiau rydych chi'n teimlo sy'n briodol i'ch safle.

5.8.3 Ni ddylai'r gymhareb goruchwyliaeth staff fod yn llai nag un aelod o staff ar gyfer pob 10 ci, gan ddarparu goruchwyliaeth uniongyrchol bob amser. Fodd bynnag, efallai y bydd y nifer hwn yn cael ei leihau yn dibynnu ar unrhyw ymchwiliadau, digwyddiadau neu unrhyw reswm arall yn dilyn archwiliad gan Swyddog awdurdodedig, mewn trafodaeth â'r Rheolwr Tîm a chytundeb gyda'r Awdurdod Trwyddedu perthnasol. Ni ddylai fod unrhyw aelod o staff yn gweithio ar ei ben ei hun, ni waeth a yw'r gymhareb cŵn i staff yn cael ei diwallu.

5.8.4 Rhaid i’r staff / trwyddedai fod yn ymwybodol o leoliad yr holl gŵn ar y safle ar bob adeg. Ni ddylid gadael cŵn ar eu pennau eu hunain ar unrhyw adeg.

5.8.5 Rhaid cynnal diwrnod asesu a chyflwyno ar gyfer pob ci cyn iddynt ryngweithio â chŵn sydd eisoes yn lletya ar y safle. Rhaid cadw’r cofnod o’r asesiad a’r cyflwyniad a’i wneud ar gael i staff ar bob adeg.

5.8.6 Bydd unrhyw aelod o staff a gyflogir gan y trwyddedai’n derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd addas o ran pob agwedd ar y sefydliad llety. Rhaid dogfennu cofnodion hyfforddiant perthnasol.

5.8.7 Dim ond pobl dros 16 oed a ganiateir i fynd â’r cŵn am dro heb oruchwyliaeth mewn mannau cyhoeddus.

5.8.6 Ni ddylid caniatáu plant dan 5 oed i fod ar y safle.

## 5.9 <u>YMARFER CORFF</u>

5.9.1 Dylid ymarfer y cŵn yn unol â dymuniadau’r perchennog. Pan eir â chŵn oddi ar y safle, rhaid eu cadw ar dennyn a sicrhau cymhareb staff i gŵn o ddim llai nag un aelod staff am bob tri chi.

5.9.2 Rhaid bod mynediad uniongyrchol i ardal addas yn yr awyr agored. Rhaid cadw’r ardal / ardd at ddefnydd y busnes yn unig (nid ei rhannu â phreswylwyr / busnesau eraill). Rhaid cadw’r ardal yn lân. Os eir â’r cŵn i ymarfer corff oddi ar eu tenynnau, bydd rhaid gwneud hynny mewn ffordd gwbl ddiogel. Rhaid bod unrhyw ffensys yn ddigonol i gadw’r cŵn yn ddiogel a sicrhau nad oes modd iddynt ddianc, heb unrhyw wrthrychau neu allwthiadau miniog peryglus. Dylid bod modd cloi’r gatiau.

5.9.3 Dylai fod 9.3 metr sgwâr (100 troedfedd sgwâr) o arwynebedd llawr ar gyfer pob ci yn y sefydliad, y mae gan y cŵn fynediad cyson iddo, i sicrhau y gallant gael

ymarfer corff digonol a rhyngweithio â chŵn eraill. Dylai'r lle alluogi staff i arsylwi ar yr holl gŵn ar yr un pryd.

5.9.4 Os oes pwll ar y safle, rhaid iddo gael ei warchod yn addas i atal y cŵn rhag mynd i mewn iddo.

5.9.5 Rhaid i'r cŵn wisgo coler a thag adnabod yn ystod eu harhosiad yn yr uned gofal dydd. Rhaid i'r tag ddangos enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr uned gofal dydd.

5.9.6 Rhaid hysbysu'r Cyngor a'r heddlu ar unwaith os bydd ci'n mynd ar goll. Gellir ffonio gwasanaeth wardeniaid cŵn y Cyngor ar 0300 1236696 a dylid ffonio'r heddlu ar y rhif i adrodd am bethau nad ydynt yn frys, sef 101.

## 5.10 TRAFNIDIAETH

5.10.1 Mae'n rhaid i'r trwyddedai sy'n cynnig gwasanaethau casglu, danfon neu gludo ci am unrhyw reswm fel rhan o'u gweithgarwch busnes sicrhau bod y cerbydau sy'n cael eu defnyddio yn cydymffurfio â Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Cymru) 2007.

## 5.11 RHAGOFALON TÂN / ARGYFWNG

5.11.1 Dylid cymryd camau priodol i amddiffyn cŵn pe digwydd tân neu argyfyngau eraill.

5.11.2 Rhaid ystyried ardal gysgu'r cŵn yn ofalus er mwyn sicrhau y gellir eu gwacáu o'r lleoliad yn rhwydd pe digwydd tân.

5.11.3 Rhaid llunio gweithdrefn rhybudd tân a chynllun gadael mewn argyfwng – gan gynnwys manylion lle y dylid mynd â'r cŵn yn achos tân neu argyfwng arall – a'i harddangos mewn man amlwg ar y safle.

5.11.4 Rhaid darparu offer canfod tân yn unol â'r cyngor cyffredinol a roddwyd gan y swyddog diogelwch tân. Rhaid bod synwyryddion mwg mewn safleoedd addas o fewn yr adeiladau a diffoddwr tân addas. Rhaid i'r diffoddwr gael ei gynnal bob blwyddyn gan gwmni addas neu ei ddisodli yn unol â'r manylion 'heibio'r dyddiad' a stampiwyd ar y diffoddwr.

5.11.5 Rhaid cadw pob drws i ystafelloedd gwag ar gau.

5.11.6 Rhaid cynnal a chadw offer a chyfarpar trydanol mewn cyflwr diogel. Ni ddylid gadael ci mewn ystafell sydd â cheblau neu wifrau rhydd neu ymlusgol.

5.11.7 Dylai pob gwresogydd fod heb berygl o fynd ar dân, fel sy'n rhesymol ymarferol. Ni ddylid defnyddio unrhyw ddyfeisiau nwy neu olew sy'n sefyll ar eu traed eu hunain. Rhaid cadw unrhyw ddyfeisiau eraill sy'n sefyll ar eu traed eu hunain

mewn modd diogel ac ni ddylai fod yn hawdd iddynt gael eu bwrw drosodd gan gŵn.

**<u>Ar gyfer Cyfleusterau Lletya gydag ardal cytiau ar gyfer lletya dros nos a chyfleusterau gofal dydd ar gyfer ymarfer corff:</u>**

**Mae'r holl Amodau Gofal Dydd Masnachol yn berthnasol, ond yn ogystal:**

5.11.8 Dim ond o dan yr amodau hyn ar gyfer cŵn sy'n mynychu'r cyfleuster gofal dydd y bydd lletya dros nos yn cael ei ddarparu.

5.11.9 Mae'n rhaid i bob ci unigol gael mynediad i lecyn cysgu o leiaf 2.3 metr sgwâr, oni bai bod mwy nag 1 ci yn rhannu man cysgu o'r un aelwyd. Yn yr achos hwn, rhaid i bob ci yn yr ardal hon allu gorwedd yn fflat a throi mewn cylch heb gyffwrdd wal neu gi arall. Rhaid i'r gofod ar y llawr hefyd ganiatáu ar gyfer dwywaith maint pob ci pan fo'n gorwedd yn fflat.

5.11.10 Dim ond dros nos y dylai'r cŵn fod yn y man cysgu, neu ar gyfer gofynion 'amser ymdawelu' fel y manylir yn yr Amodau Gofal Dydd.

5.11.11 Rhaid i bob perchennog lofnodi ffurflen telerau ac amodau yn cadarnhau eu bod yn ymwybodol bod eu ci, fel un sy'n lletya dros nos, mewn cyfleusterau gofal dydd yn ystod y dydd. Ac eithrio gofynion amser ymdawelu, amseroedd bwydo ac ati.

5.11.12 Rhaid i bob arwyneb mewnol a ddefnyddir i adeiladu waliau, nenfydau, lloriau, parwydydd, drysau a fframiau drws fod yn hirbarhaus, llyfn, anhreiddiadwy a hawdd ei lanhau.

5.11.13 Lle mae pren wedi'i ddefnyddio wrth adeiladu, rhaid iddo fod yn llyfn, a'i drin i'w wneud yn anhreiddiadwy a rhaid i bob uniad gael ei selio. Ni ddylid defnyddio pren yn yr adeiladwaith allanol - y waliau, y lloriau, parwydydd, fframiau'r drysau neu ddrysau yn ardal cytiau'r cŵn. Ni ddylai unrhyw ran o'r adeiladwaith ymestyn allan mewn ffordd a allai achosi anaf. Nid yw pren yn addas ar gyfer adeiladau newydd.

5.11.14 Rhaid inswleiddio ardaloedd cysgu'r cytiau fel nad ydynt yn rhy oer neu'n rhy gynnes.

5.11.15 Rhaid adeiladu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch y ci bob amser.

5.11.16 Rhaid i bob wal bared rhwng cytiau fod o adeiladwaith cryf i uchder o 1.2m (4 troedfedd) o leiaf.

5.11.17 Dylai lloriau pob adeilad, ardal ymarfer corff unigol a chwt fod o ddeunyddiau llyfn, anhreiddiadwy, y gellir eu golchi a'u diheintio'n hawdd, ac mewn cytiau newydd dylent ymgorffori croen atal lleithder.

5.11.18 Dylai lloriau'r cytiau a'r ardaloedd ymarfer unigol gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw yn y fath gyflwr fel eu bod yn atal pyllau rhag cronni. Mewn adeiladau newydd, dylai'r lloriau gael eu gosod i fod yn gwyro o leiaf 1 mewn 80, yn arwain at sianel ddraenio fas, neu sianel ddraenio ddofn wedi'i gorchuddio'n effeithiol.

5.11.19 Dylai drysau'r cytiau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll cael eu taro a'u crafu, a dylid bod modd eu cloi'n ddiogel. Pan ddefnyddir bariau a fframiau metel, dylent fod o led addas (tua 10-14), yn ddigonol i atal cŵn rhag dianc, neu gael eu caethiwo. Lle mae'r ymylon yn fetel, ni ddylai fod perygl o achosi anaf i'r ci. Dylid creu agoriadau i ddrysau fel na rwystrir dŵr / gwastraff rhag gadael, na chasglu gan fod y mynediad yn anhygyrch.

5.11.20 Dylai pob ffenestr sy'n achosi risg fod yn amhosib dianc ohoni ar bob adeg. Rhaid bod yna ffenestri y gellir eu hagor i gefnogi awyru da.

5.11.21 Dylid awyru'r holl ardaloedd mewnol heb achosi gormod o ddrafft lleol yn yr ardaloedd cysgu a gorffwys.

---

**MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD Â GWEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG.**

**A. GWEITHDREFN APELIO**

Gall unrhyw berson sy'n anfodlon ar benderfyniad awdurdod lleol i wrthod trwydded o'r fath, neu ar unrhyw amod a fydd yn sail rhoi trwydded o'r fath, apelio i lys ynadon a gall y llys, ar ôl derbyn apêl o'r fath, roi cyfarwyddiadau o ran rhoi trwydded neu, os bydd yn berthnasol, o ran yr amodau a fydd yn sail rhoi trwydded, fel sy'n briodol yn ei dyb ef.

**B. CANLLAWIAU RHAGOFALON TÂN**

Rhoddir y wybodaeth ganlynol i drwyddedigion er mwyn cynorthwyo â chydymffurfio â'r gofynion rhagofalon tân y manylir arnynt yn amodau trwyddedu'r Cyngor y mae angen cymryd camau priodol i ddiogelu anifeiliaid yn achos tân neu unrhyw argyfwng arall.

Nod y canllawiau yw sicrhau bod y dull o ddianc a'r rhagofalon tân yn ddigonol ar gyfer meddianwyr dynol. Dylid cofio y gall y rhagofalon diogelwch tân i bobl fod yn destun deddfwriaeth arall.
Rhaid ystyried y materion canlynol:

1. Mynediad ar gyfer Diffoddwyr Tân a Chyflenwi Dŵr – Dylai fod mynediad da ar gyfer offer diffodd tân (o leiaf 3.7m o led) i bob hydrant a ffynonellau dŵr eraill a dylid darparu arwynebau solet. Dylid arddangos bwrdd enw'r safle yn glir ger y mynediad ffordd agosaf.

2. Dull o Ddianc – Dylid dylunio llwybrau dianc i anifeiliaid i alluogi rhedeg yn syth allan o adeiladau â chyn lleied o gymorth dynol â phosib. Dylid trefnu drysau llociau yn y fath fodd fel y gall anifeiliaid adael yn gyflym a dylid osgoi troadau tynn, rhwystrau a rampiau yn y llwybrau dianc cymaint â phosib.
    a) Dylai pob safle gynnwys allanfeydd o led ac uchder digonol i ganiatáu mynediad rhwydd i'r anifeiliaid ar bob adeg.
    b) Dylai fod yn hawdd agor yr allanfeydd o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.
    c) Os bydd angen, dylid gwneud trefniadau i alw deiliad allweddi ar frys.

    Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr o hyd neu lle mae nifer sylweddol o anifeiliaid yn lletya, dylid darparu o leiaf dwy allanfa a'u gosod mor bell ar wahân â phosib. Dylid cyfyngu'r pellter teithio i 45 metr.

3. Arwyddion Dim Ysmygu – Dylid arddangos arwyddion dim ysmygu yn agos i unrhyw wair a gwellt a, lle bo'n ymarferol, dylid cymryd rhagofalon yn erbyn mynediad diawdurdod, yn benodol gan blant.

4. Gosodiadau Trydan – Dylid glanhau gosodiadau trydan, gan gynnwys lampau, yn rheolaidd er mwyn atal llwch rhag cronni. Dylid gosod a diogelu cyfarpar trydan, gwresogyddion ac ati mewn modd fel eu bod yn bellter diogel o unrhyw groniad tebygol o ddeunydd cysgu fflamadwy.

5. Offer Diffodd Tân
   a. Diffoddwyr Tân Cludadwy – Argymhellir y canlynol fel isafswm:

- Mae angen o leiaf 2 ddiffoddwr tân 9 litr ar gyfer adeiladau nad ydynt yn fwy na 200 metr sgwâr o ran arwynebedd. Mewn adeiladau sy'n fwy na 200 metr sgwâr, rhaid darparu diffoddwr tân ychwanegol ar gyfer pob 200 metr sgwâr ychwanegol neu ran o hynny.
- Rhaid i ddiffoddwyr tân cludadwy fodloni gofynion BS EN 3 a chael eu gosod a'u cynnal yn ôl yr argymhellion a nodir yn BS 5306.
- Gan ddibynnu ar ganlyniad eich asesiad perygl tân, gellid lleihau hyn i un diffoddwr tân ar safle bach iawn y mae ei arwynebedd llawr yn llai na 90m2.
- Ni ddylai diffoddwyr tân sydd, wrth eu gweithredu, yn cynhyrchu sŵn uchel, e.e. $CO_2$, neu gymylau mawr o bowdr sych, gael eu defnyddio'n agos at anifeiliaid.

   b. Riliau Pibell Ddŵr – Gellir darparu riliau pibell ddŵr yn lle diffoddwyr tân cludadwy. Dylai fod o leiaf un bibell ddŵr ar gyfer pob 800 metr sgwâr o arwynebedd neu ran ohono. Dylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Gall pibellau dŵr i olchi fod yn dderbyniol ar yr amod bod llif dŵr ddi-dor a all greu ffrwd ddŵr â thafliad o 5 metr o leiaf. Rhaid nad yw riliau pibell ddŵr yn fwy na 45m o hyd a dylid eu gosod fel y gellir mynd â'r chwistrell hyd at o fewn 6m i bob rhan o'r safle a warchodir.

6. Rhybuddion Tân – Dylai pob aelod o staff y sefydliad fod yn gyfarwydd â'r camau gweithredu i'w cymryd yn achos tân. Dylid arddangos hysbysiad amlwg wedi'i ysgrifennu'n glir sy'n nodi'r camau gweithredu i'w cymryd yn achos tân a lleoliad y ffôn agosaf. Gall yr hysbysiad hwn gynnwys y canlynol:

"Os dowch ar draws tân, sicrhewch fod pawb yn gadael yr adeilad yr effeithir arno.
Ffoniwch y Brigâd Tân (lleoliad y ffôn agosaf yw .........).
Ceisiwch ddiffodd y tân trwy ddefnyddio'r offer diffodd tân a ddarperir, os yw'n ddiogel gwneud hynny"
.

7. Cyfeirnod Map yr Arolwg Ordnans – Dylid rhoi cyfeirnod map yr Arolwg Ordnans ar gyfer y safle a'i arddangos gyda'r hysbysiad tân a ddarperir.

**Mae'n ofynnol yn ôl Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** i roi rhagofalon tân angenrheidiol ar waith i ddiogelu unigolion perthnasol yn achos tân yn yr holl safleoedd y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt a'r ardal gyfagos. Y 'person cyfrifol' sydd â'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r gorchymyn. Mewn gweithle, hwn yw'r cyflogwr ac unrhyw berson arall sy'n rheoli unrhyw ran o'r safle e.e. y meddiannwr neu'r perchennog. Ym mhob safle arall y person sy'n rheoli'r safle fydd yn gyfrifol. Rhaid i'r person cyfrifol:

Gynnal Asesiad Risg Tân a rhaid cofnodi ei ganfyddiadau pwysig os oes pum person neu fwy wedi'u cyflogi, os yw'r safle'n drwyddedig neu os oes hysbysiad addasu ar waith.

I'ch cynorthwyo ymhellach, mae'r Canllaw Diogelwch Tân ar gyfer Safleoedd a Stablau Anifeiliaid (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael o'r swyddfa sefydlog neu drwy wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (www.communities.gov.uk).

**C. IECHYD A DIOGELWCH**

Mae cyfraith iechyd a diogelwch yn berthnasol i bob busnes, ni waeth pa mor fach ydyw. Fel cyflogwr neu berson hunangyflogedig, rydych chi'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y rhagofalon priodol i leihau peryglon yn y gweithle a chreu amgylchedd gwaith diogel.

Mae canllaw ar gael o'r enw "Health and safety made simple". Mae'r canllaw hwn yn gwneud bywyd yn haws i chi trwy roi'r wybodaeth hanfodol am yr hyn mae angen i chi ei wneud yn yr un lle. Bydd yn eich helpu i roi cychwyn ar reoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

I rai gweithgareddau gwaith, gallai fod pethau ychwanegol mae angen i chi eu gwneud i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae rhagor o ganllawiau am bynciau penodol, megis rheoli asbestos, atal afiechyd trwy gysylltiad ag anifeiliaid ac ati ac asesiadau risg enghreifftiol ar gael ar-lein yn www.hse.gov.uk .

Gellir lawrlwytho'r daflen "Health and safety made simple" trwy ddilyn y ddolen hon: http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf

**Ch. CANIATÂD CYNLLUNIO**

Nid yw'r drwydded hon yn rhoi unrhyw ganiatâd nac yn cymeradwyo unrhyw ddatblygu o dan ddeddfwriaeth gynllunio. Cynghorir y gweithredwr i wirio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol ar gyfer lleoliad arfaethedig y busnes.

**D. CWYNION NIWSANS**

Nid yw'r drwydded hon yn eich eithrio mewn unrhyw ffordd o ofynion darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ynglŷn â niwsans statudol, yn benodol niwsans sy'n ymwneud ag aroglau neu sŵn. Cynghorir y gweithredwr i sicrhau y caiff y busnes ei reoli yn y fath fodd i sicrhau nad oes sail dros gwyno.

**Dd. GWAREDU GWASTRAFF**

Rhaid cael gwared ar yr holl wastraff a gynhyrchir gan fusnes yn unol â rheoliadau gwastraff cyfredol.

Nodiadau Arweiniad ar Asesiadau Risg:

Mae asesiad risg yn ddogfen i gofnodi'r holl risgiau posibl. Yn rhoi cyfle i ystyried y risg a pha gamau y gellid eu rhoi ar waith i leihau'r risg y bydd yn digwydd mewn gwirionedd.

Mae'r asesiad risg a ddarperir yn dempled o'r risgiau gofynnol. Fel safle unigol, gyda modelau busnes gwahanol o dan y drwydded hon, bydd gennych eich risgiau unigol eich hun i'w hystyried a'u dogfennu. Cysylltwch â'r Tîm Lles Anifeiliaid am gymorth pellach os oes angen – 0300 1236696.